

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



**Adroddiad cynnydd chwarterol:
Cynllun Corfforaethol 2016-19**

Eprill-Mehefin 2016

BRO GWGAN

Croeso.

Croeso i adroddiad cynnydd chwarterol Cartrefi Cymunedol Cymru ar ei gynllun corfforaethol 2016-19. Fel rhan o'n hymrwymiad i aelodau, byddwn yn rhoi adroddiad chwarterol ar lwyddiannau a cherrig milltir allweddol a gyflawnwyd ar ein blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol. Gallwch weld ein cynllun corfforaethol **yma**.

Yn ogystal â lansio ein cynllun corfforaethol, rydym hefyd yn ddiweddar wedi lansio ein **cynnig newydd i aelodau** sy'n amlinellu sut y byddwn yn dylanwadu, cysylltu, hysbysu a'ch cefnogi yn 2016/17. Rydym wedi gwella ein dulliau cyfathrebu i gynnwys pod-ddarllediad misol ac e-bost Diweddariad Wythnosol.

Ddechrau mis Gorffennaf fe wnaethom hefyd adfywio ein brand yn dilyn y penderfyniad i ddod â strwythur grŵp CHC i ben. Mae mwy o wybodaeth **yma**.

Stuart Ropke
Prif Weithredydd



Ein Cenhadaeth.

- **Dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi Llywodraeth Cymru.**
- **Cefnogi a hyrwyddo llais ein haelodau.**
- **Siarad gydag un llais.**
- **Rhoi aelodau yng nghanol popeth a wnawn.**
- **Gweithio fel un tîm i gyflawni ein cenhadaeth.**

Ei Nod.

Erbyn 2019 bydd aelodau yn ein hystyried yn gorff ymbarél gwerthfawr ac effeithlon iawn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth ein haelodaeth a byddwn wedi helpu i lunio'r amgylchedd allanol i'w galluogi i ffynnu.

Ni fydd y sefydliad mynd-ato ar faterion tai yng Nghymru, partner o ddewis ar gyfer rhanddeiliaid, ac yn cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan Lywodraeth Cymru fel sector sy'n cyflawni.

Bydd ein gwaith dros y tair blynedd nesaf yn dod o fewn pedair thema strategol.

1. Cefnogi aelodau i fod yn fusnesau cryf.
2. Gtalluogi aelodau i ddarparu mwy o gartrefi o ansawdd da sydd wrir yn fforddiadwy.
3. Cefnogi aelodau i adeiladu cymunedau cynaliadwy y mae pobol eisiau byn ynddynt.
4. Rhedeg sefydliad grych i aelodau.

Cipolwg ar Eprill-Mehefin 2016:

- Cyhoeddwyd targed tai o 20,000 ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y Cytuniad Cyflenwad Tai.
- Cwblhau gwaith sylfaenol ar benderfyniad posibl i ailddosbarthu - cyngor cyfreithiol, sesiynau gwybodaeth a chyfarfodydd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Llywodraeth Cymru.
- Penodi Cyfarwyddydd Polisi newydd.
- Sefydlu dau grŵp llywio lechyd a Thai i gwmpasu cynllun gwaith fel rhan o Femorandwm Dealltwriaeth gydag lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Ymateb sector i adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar dai â chymorth, yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau.
- Lansio adroddiad ar Opsiynau Tai ar gyfer pobl dan 35 oed, a gomisiynwyd ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Lansio pecyn aelodaeth fasnachol newydd.
- Cadarnhau CHC fel canolfan hyfforddiant Agored Cymru.

Themaau:



Gweithio gyda'r Llywodraeth newydd yng Nghymru a deall goblygiadau Brexit.

Mae'n teimlo fel oes ers etholiadau mis Mai i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda drama wleidyddol her Leanne Wood i ddod yn Brif Weinidog a phleidlais y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mewn cyfnod o newidiadau gwleidyddol mawr, mae CHC wedi:

- Cynnal cyfarfod cyntaf defnyddiol gyda Carl Sargeant, yr Ysgrifennydd Cabinet newydd ar gyfer Cymunedau a Phlant, gan drafod rôl hollbwysig y sector wrth gyflawni targedau tai newydd y Llywodraeth.
- Dosbarthu pecynnau cyflwyno i bob Aelod Cynulliad ar y pynciau allweddol ar gyfer tai yn y Cynulliad hwn.
- Lobio Aelodau Cynulliad yn llwyddiannus i gwestiynu'r Prif Weinidog ar effaith y cap ar y Lwfans Tai Lleol.
- Hysbysu aelodau am effaith y refferendwm Ewropeaidd, gyda phapurau gwybodaeth **cyn** ac **ar ôl** y refferendwm.



Rheolwr Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themaau:



Targed Tai Newydd.

Cododd ymgyrch Cartrefi i Gymru, dan arweiniad CHC yn y cyfnod cyn yr etholiad ym mis Mai, le tai ar yr agenda gwleidyddol gyda chefnogaeth gan yr holl bleidiau a etholwyd i'r Cynulliad. Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad i gyflwyno cynllun uchelgeisiol ar gyfer tai.

Lai na mis ar ôl yr etholiad, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet newydd ddyblu targed tai fforddiadwy i 20,000. Fe wnaethom gydlyn cyfarfod rhwng prif weithredwyr y sector ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru i drafod yr heriau cyflenwi ar gyfer cymdeithasau tai dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn awr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar fanylion 'cytuniad' newydd ar gyflenwad tai, gydag aelodau'n llunio ein cynnig i'r Llywodraeth. Rydym hefyd wedi cwrdd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod posibilrwydd cytuniad rhwng y tri sefydliad.



Rheolwr Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themau:

1.

2.

3.

4.

Ailddosbarthiad.

Ers penderfyniad yr ONS y llynedd i ailddosbarthu cymdeithasau tai Lloegr, mae CHC wedi arwain y ffordd ar hysbysu aelodau am effeithiau'r penderfyniad a'r adolygiad dilynol ar ddosbarthu cymdeithasau tai Cymru eleni.

Fe wnaethom baratoi papur gwybodaeth ar effeithiau'r ailddosbarthiad yn Lloegr, sicrhau a rhannu cyngor cyfreithiol gydag aelodau ar effaith yr ailddosbarthiad yn Lloegr a chanlyniad tebygol yr adolygiad yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi cwrdd gyda'r ONS a hysbysu aelodau am gynnydd yr adolygiad, yn ogystal â dylanwadu Llywodraeth Cymru ar yr angen i ddeddfu/gwrthdroi unrhyw ailddosbarthiad. Mae hyn wedi cynnwys cwrdd gydag uwch weision sifil yn ogystal â lobio i hysbysu Aelodau Cynulliad am yr angen i gymdeithasau tai barhau tu allan i'r sector cyhoeddus.



Rheolwr Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themau:

3.

Iechyd a Thai.

Mae CHC yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella cydweithio rhwng y sector Tai a'r sector Iechyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cynnal gwaith mapio i sefydlu prosiectau iechyd a thai ledled Cymru, yn ogystal â hwyluso datblygu dau grŵp prosiect sydd wedi cwrdd i ddynodi eu blaenoriaethau.

Cafodd dau grŵp llywio eu sefydlu hefyd. Mae'r Grŵp Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol yn anelu i ddynodi 'seilwaith' ymgysylltu iechyd, gofal cymdeithasol a thai ynghyd â'r ddarpariaeth gyfredol yn y sector Gofal a Chymorth, a bydd hefyd yn ymchwilio sut y gellir sicrhau mwy o gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau ar y cyd.

Bydd ffocws y Grŵp Prosiect Iechyd Cyhoeddus Iechyd a Thai ar wella iechyd a llesiant tenantiaid. Bydd yn ymchwilio hyfywedd atal codymau ac yn dynodi dulliau gweithredu i atal diweithdra.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ym mis Awst. Caiff papur gwybodaeth lawn ar yr agenda hwn ei gylchredeg yn y dyfodol agos.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Hayley MacNamara

✉ hayley-macnamara@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4819 | 07870 946419

🐦 @Hayley_CHC

Themau:

1.

4.

Gwerth am Arian.

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Annibynnol Cymru wedi dynodi fod gwerth am arian yn faes blaenoriaeth i ganolbwyntio arno ac mae Tîm Rheoliadol Tai Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r sector arwain wrth ddynodi dull gweithredu cydlynol a strategol at werth am arian. Mae CHC felly'n gweithio gyda'r sector i gytuno ar set o egwyddorion a dulliau gweithredu gwerth am arian.

Rydym wedi comisiynu HouseMark i gynnal ymchwil ac ymgynghoriad i ddarparu cyhoeddiad fydd yn rhoi sylfeini deallusol ac egwyddorion lefel uchel ar ystyr gwerth am arian i'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Lansir yr adroddiad terfynol yn ein Cynhadledd Tai Fawr ar 6 Hydref.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Hayley MacNamara

✉ hayley-macnamara@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4819 | 07870 946419

🐦 @Hayley_CHC

Themau:

1.

2.

3.

Effaith newidiadau i Fudd-dal Tai ar bobl dan 35 oed

Ym mis Mehefin fe wnaethom ein hymchwil y gwnaethom ei gyd-gomisiynu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar effeithiau'r cap ar Lwfans Tai Lleol ar bobl dan 35 ac argymhellion ar y ffordd orau i'r sector tai cymdeithasol ymateb. Bu diddordeb mawr iawn yn yr ymchwil ac rydym yn awr yn gweithio gyda'n haelodau i ddynodi'r heriau a chyfleoedd a ddaw yn sgil yr argymhellion, oedd yn bennaf yn hyrwyddo tai a rennir fel model hyfyw i ddiwallu'r angen tai a gaiff ei greu gan y cap ar y Lwfans Tai Lleol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddynodi'r galw am dai a rennir a'r awydd i ddatblygu a throsi i greu tai a rennir addas.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Hayley MacNamara

✉ hayley-macnamara@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4819 | 07870 946419

🐦 @Hayley_CHC

Themau:

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.

Tai â Chymorth a'r cap ar Lwfans Tai Lleol.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n cynnal adolygiad o Dai â Chymorth ar draws y Deyrnas Unedig gyda'r nod o ddynodi diffiniad o dai â chymorth a datblygu model cyllido newydd. Mewn ymateb i'r adolygiad yma, mae CHC a'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol wedi gweithio'n agos i ymchwilio sut olwg fedrai fod ar fodel cyllid cynaliadwy ar gyfer tai â chymorth a thai gwarchod.

Yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau a rhanddeiliad yn cynnwys arolwg ar-lein ac ymgynghoriad grŵp llywio, fe wnaethom ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gofyn am eithrio Tai â Chymorth o'r Lwfans Tai Lleol a chyflwyno cap uwch newydd mewn Credyd Cynhwysol. Fe wnaethom hefyd ofyn am roi ystyriaeth i gyfrifoldebau datganoledig Cymru wrth ddatblygu unrhyw bolisiau. Gohiriwyd cyhoeddi'r adroddiad tan yr Hydref.



Pennaeth Datblygu Busnes, YBAC
Paul Langley

✉ paul-langley@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4812 | 07875 998795

🐦 @Paul_CHC

Themau:

- 1.
- 4.

Cynadleddau a Gweithgaredd Masnachol.

Cynhadledd undydd ar Lwfans Tai Lleol - Fe wnaethom gynnal cynhadledd undydd lwyddiannus ar effaith newidiadau i'r Lwfans Tai Lleol. Dynododd trafodaethau bwrdd crwn bwyntiau gweithredu a gweithgaredd dilynol ar gyfer CHC a'r sector.

Cynhadledd Adnoddau - Cynhaliwyd ein Cynhadledd Adnoddau ym mis Gorffennaf gyda 141 o gynrychiolwyr, cynnydd o 22 ar y llynedd. Mae ein tîm Gwasanaethau Aelodau hefyd yn gweithio ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynadleddau 2017-18.

Pecynnau Aelodaeth Fasnachol - Mae CHC wedi lansio ei becyn aelodaeth fasnachol sydd yn fwy hyblyg ac sydd â llawer mwy o opsiynau i'n haelodau masnachol ddewis o'u plith. Cynhaliwyd dau lansiad ym mis Mai a mis Mehefin oherwydd y galw. Ers hynny, rydym wedi derbyn tri aelod masnachol pendant ac yn cynnal trafodaethau gydag wyth o sefydliadau eraill.



Rheolydd Gwasanaethau Aelodau a Datblygu Busnes
Adele Harries-Nicholas

✉ adele-harries-nicholas@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4803 | 07769 550891

🐦 @HarriesAdele

Themau:



Datblygu Busnes.

Smart Energy GB - Mae CHC yn cydweithio gyda SmartEnergy GP i gyflwyno cymorth a chefnogaeth i aelodau sy'n gweithio gyda thenantiaid ar osod mesuryddion ynni deallus newydd. Bydd y bartneriaeth newydd hon, fydd yn cynhyrchu incwm, yn dechrau ddiwedd mis Gorffennaf ac yn parhau am chwe mis.

CHC yn ganolfan gydag achrediad Agored Cymru - Mae CHC yn ddiweddar wedi ei sefydlu fel canolfan gydag achrediad Agored Cymru. Mae hyn yn galluogi CHC i roi achrediad i'w gyrsiau ei hun a hefyd gynnig gwasanaethau achredu i aelodau i achredu eu cyrsiau. Mae gan CHC dri aelod wedi cofrestru fel partneriaid: Cartrefi Melin, Cartrefi Cymoedd Merthyr a Hafod.



Rheolydd Gwasanaethau Aelodau a Datblygu Busnes
Adele Harries-Nicholas

✉ adele-harries-nicholas@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4803 | 07769 550891

🐦 @HarriesAdele

Themau:



Adolygu Ffioedd Aelodaeth CHC

Mae CHC yn cynnal adolygiad o'r model sy'n cyfrif ffioedd aelodaeth flynyddol aelodau. Gan weithio gyda'r Fforwm Cyllid ac ymgynghori gydag aelodau, bydd CHC yn cyflwyno model newydd ar gyfer 2017/18 sy'n deg a rhesymol i'r aelodau ac yn rhoi cynaliadwyedd i CHC.



Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cyllid a TCG
Steve Evans

✉ steve-evans@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4817 | 07791 898611

Tan y chwarter nesa'.

Fel y gwelwch, bu'n chwarter cyntaf prysur gyda llawer o bethau'n digwydd, sgysiau a chamau nesaf yn cael eu rhoi ar waith.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y chwarter nesaf yn cynnwys manylion y cytuniad cyflenwad tai gyda Llywodraeth Cymru a rhai meysydd newydd o waith, megis Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector. Gallwch ddisgwyl yr adroddiad cynnydd nesaf ym mis Hydref.

Cysylltwch â ni.

-  chcymru.org.uk
-  twitter.com/CHCymru
-  enquiries@chcymru.org.uk
-  02920 674800